



21/07/2022

Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

Ar ddiwedd blwyddyn sydd wedi bod yn llawn heriau ac uchafbwyntiau, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus. Unwaith eto, gyda'n gilydd, rydym wedi sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn derbyn y cyfleoedd a'r gefnogaeth i ddatblygu 'yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus, cyflawn' (Estyn Chwefror 2022).

Mae'r tymor olaf hwn wedi bod yn llawn cyfleoedd i symud y dysgu ymlaen a sicrhau bod ein disgyblion yn parhau i ddatblygu fel disgyblion sydd yn 'arddangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu' (Estyn 2022). Yn ystod y tymor olaf hwn rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau allweddol a symud dysgu yn ei flaen. Mae disgyblion o bob oed wedi cael cyfle i flaenoriaethu meysydd dysgu o brofiadau yn yr awyr agored i ddyddysgu dwys yn y pynciau craidd, gweithio yn y pynciau colofn opsiwn, datblygu sgiliau arweinyddiaeth a lawnsio'r Bac ym Mlwyddyn 9.

Rydym yn falch iawn o'n carfan gyntaf o ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd wedi cwblhau eu arholiadau TGAU gyda brwdfrydedd, dygnwch ac egni. Dymunwn yn dda iawn i bob un ohonynt, roedd yn hyfryd eu gweld eto yn nawns Blwyddyn 11 yn Orendy Margam a rydym yn falch iawn bod dros 50 ohonynt yn parhau â'u hastudiaethau yng Nghanolfan Gwenallt.

Unwaith eto eleni rydym wedi ail-afael yn ein gwaith elusennol. Rydym yn credu'n gryf yn ein ystyriaeth o eraill ac rydym wedi manteisio ar bob cyfle i godi arian at achosion sy'n agos at ein calonnau. Yn ein diwrnodau codi arian, yr ydym wedi cefnogi nifer o elusennau lleol a chenedlaethol ac eleni eto a rydym yn ddiolchgar iawn i chi fel rhieni am eich cefnogaeth a'ch cyfraniadau.

Edrych ymlaen at fis Medi

Bydd ein blwyddyn academaidd newydd yn dechrau ar Fedi'r 5ed.

Llun Medi 5ed	HMS (dim ysgol i ddisgyblion)
Mawrth Medi 6ed	Blwyddyn 7 YN UNIG
Mercher Medi 7fed	Pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol

Gwisg ysgol:

Byddwn yn dychwelyd i WISG YSGOL GAFAF LAWN o Fedi'r 5ed. Bydd pob disgybl yn gwisgo crys a thei, siwmpwr ysgol, trowsus du / sgert ac esgidiau du a bydd gofyn i bob disgybl newid ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. NI FYDD HAWL gwisgo **leggings, trainers gwyn, sannau gwyn nag unrhyw hwdis**. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth wrth i ni ail-osod safonau a disgwyliadau.

ParentPay / Ciniawau ysgol:

A allwch sicrhau bod gan eich plentyn arian ar ei gyfrif a throsglwyddo'n rheolaidd gan y gall diffyg arian achosi problemau i ddisgyblion a'r system heb arian parod.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i staff yr ysgol sydd wedi gweithio'n ddiflino trwy gydol y flwyddyn academaidd, am sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael yr addysg orau bosibl, ac am ymdrechu'n barhaus i gael ffyrdd newydd ac arloesol o ysbrydoli ac ysgogi ein dysgwyr. Mae diwedd y flwyddyn eleni yn ddiwedd cyfnod o fod yn rhan o staff yr ysgol i rai aelodau staff. Ar ran yr ysgol hoffwn ddiolch i Miss Jodie



Ysgol Gymraeg Bro Dur
Rhodfa'r Môr/Seaway Parade, Traeth Melyn/Sandfields
Port Talbot, Castell-nedd Port Talbot, SA12 7EQ
(01639) 502895
YsgolBroDurUwchradd@npt.school

James a Mr Jac Wyn Williams sydd yn ein gadael eleni – mae'r ddau wedi bod gyda ni ers sefydlu Bro Dur a 'rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r ddau am eu cyfraniad ac yn dymuno'n dda i'r ddau ar eu mentrau cyffrous newydd. Byddwn ni'n ffarwelio a Mrs Luned Henry Hughes, Pennaeth Cynnydd Blwyddyn 7 a Mrs Angharad Voyle, Pennaeth Cynnydd Blwyddyn 8 a dymunwn yn dda iddyn nhw yn eu swyddi newydd gan ddiolch yn fawr iddynt am y gwaith bugeiliol gwych eleni. Byddwn ni hefyd yn ffarwelio gyda Miss Hannah Thomas, Miss Amy Holloway, Miss Alice Emanuel-Trinca a Miss Anna Matthews a rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r pedair am eu cyfraniadau i fywyd yr ysgol, byddwn ni'n gweld eu colli. Ar ran yr holl ddisgyblion sydd wedi elwa o'u cefnogaeth estynnaf ddiolch enfawr i bob un o'r staff uchod. Mae pob diwedd cyfnod yn dod â chyfleoedd newydd a rydyn ni'n gyffrous iawn i groesawu aelodau newydd i ymuno â thîm y staff ym mis Medi.

I orffen, dymunaf haf hapus a heddychlon i bob un ohonoch; edrychwn ymlaen at ddechrau o'r newydd ym mis Medi gydag egni ac uchelgais o'r newydd.

Yn ddidwyll

Pennaeth



21/07/2022

Dear Parents/Guardians,

At the end of a year full of both challenges and highlights, I would like to take this opportunity to thank you all for your continued support and co-operation. Once again, through our continued partnership we have ensured that our children and young people received every opportunity and support to develop into 'well-rounded principled and knowledgeable citizens'. (Estyn February 2022).

The summer term has been full of opportunities for us to intensify learning and ensure that our pupils continue to develop as individuals who 'display a positive attitude towards their learning' (February Estyn 2022). During this last term we have focused on developing key skills and moving learning forward. Pupils of all ages have had the opportunity to prioritise learning areas from outdoor experiences to intensive learning in the core subjects, focusing on the option column subjects in Year 10, developing leadership skills and launching the Welsh Bac in Year 9.

We are very proud of our first cohort of Year 11 pupils who have completed their GCSE exams with enthusiasm, endurance and energy. We wish them all the best, it was lovely to see them again at the Year 11 dance in Margam Orangery and we are very proud that over 50 of them are continuing their studies at Canolfan Gwenallt.

Once again this year we have resumed our charity work. We strongly believe in our consideration of others and have taken advantage of every opportunity to raise money for causes that are close to our hearts. In our fundraising days, we have supported a number of local and national charities and again this year and we are very grateful to you as parents for your support and contributions.

Looking ahead to September

Our new academic year will start on September 5th.

Monday September 5th	INSET (no school for pupils)
Tuesday September 6th	Year 7 ONLY
Wednesday September 7th	All pupils return to school

School uniform:

We will return to **A FULL WINTER UNIFORM** from September 5th. All pupils will wear a shirt and tie, school jumper, black trousers / skirt and black shoes and all pupils will be required to change for PE lessons. No pupil will be allowed to wear leggings, white trainers, white socks or any hoodie. We kindly ask for your support as we re-set standards and aim to fulfill our high expectations.

ParentPay / School lunches:

Ready for September please can you ensure that your child has money on their account and transfers regularly as a lack of money can cause problems for pupils and the cashless system.

Finally, I would like to take this opportunity to thank the school staff who have worked tirelessly throughout the academic year, I thank them for ensuring that our young people receive the best possible education and



Ysgol Gymraeg Bro Dur
Rhodfa'r Môr/Seaway Parade, Traeth Melyn/Sandfields
Port Talbot, Castell-nedd Port Talbot, SA12 7EQ
(01639) 502895
YsgolBroDurUwchradd@npt.school

for continually striving for new and innovative ways of inspiring and motivating our learners. At the end of this term many of our staff will be moving on to pastures new. On behalf of the school I would like to thank Miss Jodie James and Mr Jac Wyn Williams who are leaving us this year - they have both been with us since the establishment of Bro Dur and we are very grateful to them both for their contribution and wish them both well in their exciting new ventures. We will say goodbye to Mrs Luned Henry Hughes, Year 7 Head of Progress and Mrs Angharad Voyle, Year 8 Head of Progress and we wish them well in their new positions and thank them very much for their excellent pastoral work this year. We will also say goodbye to Miss Hannah Thomas, Miss Amy Holloway, Miss Alice Emanuel-Trinca and Miss Anna Matthews and we are very grateful to all four for their contributions to school life, we will miss them. On behalf of all the pupils who have benefited from their support I extend a huge thank you to all of the staff above. Every end of term brings new opportunities and we are very excited to welcome new members to join the staff team in September.

To finish, I would like to wish you all a happy and peaceful summer and look forward to a fresh start in September with renewed energy and ambition.

Yours sincerely,

Headteacher